Ty'r Cwmnïau
er gwybodaeth

Fel yr addaswyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Ffurfio Cwmnïau

GBF1

Mai 2009

Fersiwn 23

BERR
Yr Adran Busnes,
Menter a Diwygio Rheoleiddio

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp clywedol. Am fanylion pellach gweler ein gwefan , e-bostiwch ein Hadran Ymholiadau ar neu ffoniwch ein Canolfan Gysylltu ar 0303 1234 500.

Rhaid bod yn ymwybodol o'r canlynol wrth ddarllen y nodiadau canllaw hyn:

Mae rhai (ond nid y cyfan) o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 wedi dod i rym. Gan hynny, mae rhai o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 1985 yn dal yn berthnasol. Rydym wedi ceisio gwneud yn glir drwy'r holl nodiadau hyn, gymaint â phosib, pa Ddeddf sy'n berthnasol. Os hoffech chi wybod pa ddarpariaethau yn y Deddfau priodol sydd mewn grym, ymwelwch â'n gwefan . Mae dolen ar ein gwefan hefyd i wefan BERR (Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio) lle gallwch chi weld rhagor o wybodaeth. Mae rhai darpariaethau yn y Ddeddf newydd yn amodol ar drefniadau trosiannol. Cyhyd â phosib, eglurwn hyn yn y canllaw presennol a rhown fanylion ar ein gwefan.

Mae un cam olaf yng ngweithrediad Deddf Cwmnïau 2006 sydd wedi ei drefnu ar gyfer Hydref 2009. Byddwn yn diweddaru unrhyw nodiadau canllaw a effeithir gan y gweithrediadau hynny ar y pryd. Efallai yr hoffech chi gadw golwg ar ein gwefan hefyd lle byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth wrth i'r broses o weithredu barhau, er mwyn ichi gael mynediad at y newyddion diweddaraf.

Hyd fis Hydref 2009 mae'r nodiadau canllaw hyn yn berthnasol i gwmnïau sydd wedi cael eu ffurfio ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Ar ôl hynny, rhaglennir i'r system ar wahân ar gyfer Gogledd Iwerddon ymdoddi i'r system gyfun ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd.

Cynnwys

Cyflwyniad

1. Cwmnïau newydd

2. Cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus

3. Cwmnïau unig aelod

4. Ailgofrestru

5. Cyhoeddi enw'r cwmni, a'r manylion sydd i'w dangos ar ddeunydd ysgrifennu'r cwmni

6. Y cwmni newydd - edrych ymlaen

7. Gwybodaeth bellach

Canllaw yn unig yw hyn a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

- Deddf Cwmnïau 1985
- Deddf Cwmnïau 2006
- Gorchymyn Deddf Cwmnïau 2006 (Dechreuad Rhif 6, Gorchymyn Arbedion a Dechreuadau Rhif 3 a Rhif 5 (Diwygiad)) 2008 – OS 2008/674
- Rheoliadau Cwmnïau (Datgeliadau Masnachu) 2008 – OS 2008/495

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn sôn am y gofynion ar gyfer ffurfio cwmnïau preifat wedi eu cyfyngu drwy gyfrannau, cwmnïau preifat wedi eu cyfyngu drwy warant, cwmnïau cyfyngedig cyhoeddus a chwmnïau anghyfyngedig. Mae'n egluro hefyd y gwahaniaeth rhwng y mathau hyn o gwmni ac yn cynnig gwybodaeth a chyngor am ddogfennau ymffurfio, yr aelodaeth, y cyfalaf cyfrannau a'r swyddogion cwmni.

Nid yw'r canllaw'n egluro'n fanwl y rheolaeth sy'n bodoli o ran defnyddio rhai enwau cwmni. I gael gwybodaeth bellach am hyn, darllenwch ein canllaw 'Enwau Cwmni' Rhaid i bob cwmni ddatgelu gwybodaeth arbennig i Dŷ'r Cwmnïau er mwyn y cofnod cyhoeddus ac i'r bobl y deliant â nhw. Mae'r canllaw hwn yn dweud wrthych chi pryd mae'n rhaid rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am newidiadau i amgylchiadau a manylion y cwmni:

- Cyhoeddi enw'r cwmni a'r manylion sydd i'w dangos ar gyfathrebiadau'r cwmni;
- Ffeilio cyfrifon a ffurflenni blynyddol; a
- Beth fydd yn digwydd os nad anfonir yr wybodaeth i Dŷ'r Cwmnïau mewn pryd.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi rhyw gymaint o wybodaeth am rwymedigaethau ffeilio cyson cwmnïau. Am wybodaeth fanylach ynghylch pynciau penodol, darllenwch y canllawiau unigol y cyfeirir atyn nhw yn yr arweiniad hwn.

Daw llawer rhwymedigaeth yn sgil sefydlu cwmni. Gall fod yn werth ichi geisio cyngor cyfreithiwr neu gyfrifydd er mwyn cael gweld ai ffurfio cwmni yw'r ffordd orau ichi redeg eich busnes.

Pennod 1
Cwmnïau newydd

Mae cwmni yn endid cyfreithiol wedi ei ffurfio i ddilyn busnes neu weithgareddau eraill yn enw'r gymdeithas. Gan ei fod wedi ei gorffori, mae iddo hunaniaeth gyfreithiol sydd ar wahân i hunaniaeth ei aelodau.

1. Oes mwy nag un math o gwmni?

Mae pedwar prif fath o gwmni:

- **Cwmni preifat wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau –** mae gan y math hwn o gwmni gyfalaf cyfrannau ac mae atebolrwydd pob aelod wedi ei gyfyngu i'r swm sydd heb ei dalu yng nghyswllt y cyfrannau sydd ym meddiant yr aelod. Ni chaiff cwmni preifat gynnig ei gyfrannau i'w gwerthu i'r cyhoedd.

- **Cwmni preifat wedi ei gyfyngu drwy warant** – Ni fydd aelodau'r math hwn o gwmni yn gwneud unrhyw gyfraniad at y cyfalaf yn ystod oes y cwmni, gan na fyddant yn prynu cyfrannau. Bydd atebolrwydd yr aelodau wedi ei gyfyngu i'r swm y cytunant bob un i'w gyfrannu at asedion y cwmni pe câi ei ddirwyn i ben.

- **Cwmni anghyfyngedig preifat** – gall y math hwn o gwmni fod â chyfalaf cyfrannau neu beidio a does dim cyfyngiad i atebolrwydd yr aelodau. Gan nad oes cyfyngiad i atebolrwydd yr aelodau, mae'n rhaid datgelu llai o wybodaeth na mathau eraill o gwmni.

- **Cwmni cyfyngedig cyhoeddus** – mae cyfalaf cyfrannau gan y math hwn o gwmni ac mae atebolrwydd pob aelod wedi ei gyfyngu i'r swm sydd heb ei dalu yng nghyswllt y cyfrannau sydd ym meddiant yr aelod. Caiff cwmni cyfyngedig cyhoeddus gynnig gwerthu ei gyfrannau i'r cyhoedd. Gellir hefyd ei restru yn y Gyfnewidfa Stoc.

Gall "cwmni preifat" fod yn unrhyw un o'r tri cyntaf ar y rhestr hon. Mae rhai "cwmnïau sydd wedi eu cyfyngu drwy warant gyda chyfalaf cyfrannau" yn aros o hyd. Does dim modd ffurfio'r rhain ers 1981 ac ni roir sylw iddyn nhw yn y canllaw hwn.

2. Pwy gaiff ffurfio cwmni?

Yn gyffredinol, mae'r Ddeddfwriaeth Gwmnïau'n caniatáu i un neu ragor o bobl ffurfio cwmni at unrhyw ddiben cyfreithlon drwy danysgrifio i'w femorandwm cymdeithasiad. Ond rhaid i gwmni cyhoeddus neu gwmni anghyfyngedig fod ag o leiaf dau danysgrifydd (bydd y rheol hon yn diflannu pan ddaw Deddf Cwmnïau 2006 i rym llawn ar 1 Hydref 2009). Gwelir gwybodaeth am gwmnïau wedi eu ffurfio gan un person ym mhennod 3. (O dan y gyfraith, mae 'person' yn cynnwys unigolion a chwmnïau.)

3. Sut dylwn i ffurfio cwmni?

Mae cwmnïau parod ar gael gan asiantiaid ffurfio cwmnïau y gwelir eu henwau a'u cyfeiriadau mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau. Os byddwch yn ffurfio cwmni eich hun, bydd angen ichi anfon y dogfennau canlynol, ynghyd â'r ffi gofrestru i Dŷ'r Cwmnïau :

- Memorandwm cymdeithasiad;
- Erthyglau cymdeithasiad (ac eithrio lle mabwysiedir Tabl A heb ei addasu - ;
- Ffurflen 10 wedi ei chwblhau; a
- Ffurflen 12 wedi ei chwblhau.

Eglurir pob un o'r dogfennau hyn isod. Os dymunwch i swyddfa gofrestredig y cwmni (gweler cwestiwn 8 isod) fod yng Nghymru neu Loegr, dylech eu hanfon i Dŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd. Os dymunwch iddi fod yn yr Alban, dylech eu hanfon i Dŷ'r Cwmnïau yng Nghaeredin. (Gweler y cyfeiriadau ar ddiwedd y canllaw hwn).

4. Beth yw memorandwm cymdeithasiad?

Dogfen ysgrifenedig yw hon sy'n nodi:

- enw'r cwmni;
- p'un ai yng Nghymru a Lloegr (h.y. gellir ei lleoli yn y naill wlad neu'r llall), yng Nghymru (h.y. dim ond yng Nghymru y gellir ei lleoli) neu yn yr Alban y mae swyddfa gofrestredig y cwmni i'w lleoli;
- beth a wnaiff y cwmni (ei amcanion). Hwyrach mai amcan y cwmni, yn syml, fydd dilyn busnes fel cwmni masnachu cyffredinol;
- lle bo hynny'n gymwys, bod atebolrwydd yr aelodau wedi ei gyfyngu;
- lle bo hynny'n gymwys, swm y cyfalaf cyfrannau y mae'r cwmni'n cynnig cael ei gofrestru ar ei sail, a manylion rhaniad y cyfrannau hynny'n symiau penodol; ac
- yn achos cwmni cyfyngedig cyhoeddus, y ffaith mai cwmni cyhoeddus y mae i fod.

Rhaid i bob tanysgrifydd lofnodi memorandwm y cwmni yng ngŵydd tyst y mae'n rhaid iddo yntau/iddi hithau hefyd lofnodi'r ddogfen hon cyn ei hanfon i Dŷ'r Cwmnïau. Yn achos cwmni sydd wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau, mae'n rhaid i bob tanysgrifydd gymryd o leiaf un gyfran yn y cwmni a rhaid i nifer y cyfrannau y bydd pob tanysgrifydd yn eu cymryd gael ei gofnodi wrth enw'r tanysgrifydd perthnasol.

Mae'r Rheoliadau'n pennu'r diwyg priodol i femorandwm. Gwelir y rhain wedi eu hegluro isod.

5. Beth yw erthyglau cymdeithasiad?

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rheolau ar gyfer rhedeg a rheoli materion mewnol y cwmni.

Rhaid i bob tanysgrifydd lofnodi erthyglau cymdeithasiad y cwmni yng ngŵydd tyst y mae'n rhaid iddo yntau/iddi hithau hefyd lofnodi'r ddogfen.

Mae'r Rheoliadau'n darparu set gyflawn o erthyglau cymdeithasiad. 'Tabl A' y gelwir yr erthyglau i gwmnïau sydd wedi eu cyfyngu drwy gyfrannau ac mae dau fersiwn yn y Rheoliadau: un i gwmnïau preifat ac un i gwmnïau cyhoeddus.

Caiff cwmni sydd wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau ddewis:

- mabwysiadu Tabl A yn ei grynswth neu'n rhannol fel ei erthyglau cymdeithasiad ei hun;
- mabwysiadu Tabl A gydag addasiadau; neu
- fabwysiadu ei erthyglau ei hun.

Ni fydd angen i gwmni wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau sy'n penderfynu mabwysiadu Tabl A heb addasiadau roi i Dŷ'r Cwmnïau gopi o'i erthyglau cymdeithasiad. Ond mae'n rhaid egluro'r penderfyniad hwn mewn llythyr wedi ei atodi wrth eich cais am ffurfio cwmni.

Rhaid i gwmni cyhoeddus benodi o leiaf dau gyfarwyddwr. Caiff cwmni preifat benodi un cyfarwyddwr os nodir hynny yn ei erthyglau . Os yw erthyglau'r cwmni'n caniatáu penodi un cyfarwyddwr, bydd yn mabwysiadu fersiwn addasedig o Dabl A ac yn yr amgylchiadau hyn byddai angen iddo anfon yr erthyglau gyda'r cais am ffurfio cwmni.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu mathau eraill o erthyglau cymdeithasiad y gall cwmni sydd wedi ei gyfyngu drwy warant (Tabl C) a chwmni anghyfyngedig (Tabl E) eu mabwysiadu. Mae'n rhaid i'r mathau hyn o gwmni fabwysiadu erthyglau cymdeithasiad ar y diwygiau hyn, neu mor agos iddyn nhw ag sy'n bosib. Ni chânt fabwysiadu erthyglau hollol wahanol.

Sylwer: mae gofynion penodol ynglŷn â memoranda ac erthyglau Cwmnïau Buddiant Cymunedol (cwmnïau BC), Cwmnïau Hawl i Reoli a Chymdeithasau Cyfunddaliad. Mae'r rhain i'w gweld:

- ar gyfer cwmnïau BC, yn 'Rheoliadau Cwmnïau Buddiant Cymunedol 2005' (Offeryn Statudol 2005/1788). Mae memoranda ac erthyglau cymdeithasiad enghreifftiol i'w cael ar wefan y rheoleiddiwr cwmnïau BC
- ar gyfer Cwmnïau Hawli i Reoli y mae'n rhaid iddyn nhw fod wedi eu cyfyngu drwy warant, yn 'Rheoliadau (Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad) Cwmnïau Hawl i Reoli (Cymru) 2004' (Offeryn Statudol 2004/675 (W.64) neu 'Rheoliadau (Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad) Cwmnïau Hawl i Reoli (Lloegr) 2003' (Offeryn Statudol 2003/2120).

- ar gyfer Cymdeithasau Cyfunddaliad y mae'n rhaid iddyn nhw fod wedi eu cyfyngu drwy warant, yn y tarddle perthnasol i femoranda ac erthyglau cwmnïau Hawl i Reoli sydd wedi ei osod yn 'Rheoliadau Cyfunddaliad 2004' (Offeryn Statudol 2004/1829).

6. Sut ca i hyd i gopïau o'r diwyg priodol ar gyfer memorandwm ac erthyglau cymdeithasiad i'm cwmni?

Ni all Tŷ'r Cwmnïau roi memorandwm nac erthyglau cymdeithasiad ichi ond cewch eu prynu gan ddogfennwr cyfreithiol neu asiant ffurfio cwmnïau. Fel dewis arall, cewch eu paratoi eich hun ar sail y Rheoliadau sydd wedi eu nodi isod. Ond mae'n rhaid i gwmni sydd wedi ei gyfyngu drwy warant a chwmni anghyfyngedig ddefnyddio'r Rheoliadau hynny.

Er na ddylid ystyried y canllaw presennol yn ganllaw cynhwysfawr i'r pwnc hwn, mae'r rheoliadau allweddol sy'n ymwneud â'r memorandwm a'r erthyglau cymdeithasiad, a'r cwmnïau y maen nhw'n gymwys iddynt, wedi eu crynhoi isod.

- Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A i F) 1985 (Offeryn Statudol 1985/805), sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

  (a) Tabl A - Erthyglau cymdeithasiad ar gyfer cwmni wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau (mewn dau fersiwn, cyhoeddus a phreifat);

  (b) Tabl B - Memorandwm cymdeithasiad ar gyfer cwmni cyfyngedig preifat;

  (c) Tabl C - Memorandwm ac erthyglau cymdeithasiad ar gyfer cwmni wedi ei gyfyngu drwy warant heb gyfalaf cyfrannau;

  (d) Tabl D - Memorandwm ac erthyglau cymdeithasiad ar gyfer cwmni wedi ei gyfyngu drwy warant gyda chyfalaf cyfrannau; (**sylwer:** ni ellir mwyach ffurfio cwmnïau o'r math hwn);

  (e) Tabl E - Memorandwm ac erthyglau cymdeithasiad ar gyfer cwmni anghyfyngedig gyda chyfalaf cyfrannau; a hefyd

  (f) Tabl F - Memorandwm cymdeithasiad ar gyfer Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus.

  Cafodd y rheoliadau hyn eu diwygio gan y canlynol -

  - Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A i F) (Diwygiad) 1985 (Offeryn Statudol 1985/1052);
  - Gorchymyn Deddf Cwmnïau 1985 (Cyfathrebiadau Electronig) 2000 (Offeryn Statudol 2000/3373);
  - Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A i F) (Diwygiad) 2007 (Offeryn Statudol 2007/2541);
  - Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A i F) (Diwygiad) (Rhif 2) 2007 (Offeryn Statudol 2007/2826); a

- Rheoliadau Cwmnïau (Tablau A i F) (Diwygiad) (Offeryn Statudol 2008/739).

Mae Tablau A, C ac E fel cawsant eu diwygio'n ddiweddar, i'w cael ar wefan BERR

Dim ond i gwmnïau wedi eu ffurfio ar neu wedi dyddiad gweithredu'r newidiadau y mae'r diwygiadau i Dablau'r Rheoliadau yn gymwys. Nid effeithiant ar erthyglau cymdeithasiad cwmnïau a gafodd eu ffurfio cyn y pryd hwnnw, hyd yn oed os Tabl A, C neu E heb addasiadau yw'r erthyglau hynny. Os bydd cwmni sy'n bod yn barod yn penderfynu ei fod am fabwysiadu rhai neu bob un o'r darpariaethau mewn Tabl diwygiedig, bydd angen iddo basio penderfyniad ffurfiol i wneud y newidiadau hyn a ffeilio copi o'r penderfyniad yn Nhŷ'r Cwmnïau, ar y cyd â'r erthyglau diwygiedig.

7. Beth yw Ffurflen 10?

Mae Ffurflen 10 yn rhoi manylion y cyfarwyddw(y)r cyntaf, yr ysgrifennydd a'r cyfeiriad a arfaethir i'r swyddfa gofrestredig. Yn ogystal â'u henwau a'u cyfeiriadau, rhaid i gyfarwyddwyr y cwmni roi eu dyddiad geni, eu galwedigaeth a manylion unrhyw safleoedd eraill fel cyfarwyddwr a ddaliwyd ganddyn nhw yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rhaid i bob swyddog a benodir a phob tanysgrifydd (neu eu cynrychiolydd) lofnodi a dyddio'r ffurflen.

Does dim rhaid mwyach i gwmnïau preifat fod ag ysgrifennydd cwmni, er y cânt ddewis bod eu herthyglau cymdeithasiad yn mynnu un. Wrth ffurfio cwmni preifat lle mae'r gofyniad hwn yn bod, dylech chi lenwi'r manylion ysgrifennydd ar Ffurflen 10.

Rhaid i bob cwmni cyhoeddus barhau i fod ag ysgrifennydd cwmni cymwysedig –

8. Beth yw swyddfa gofrestredig?

Dyma gyfeiriad swyddogol y cwmni a'r cyfeiriad yr anfonir hysbysiadau, llythyrau a nodiadau atgoffa Tŷ'r Cwmnïau iddo. Mae'n rhaid i'r swyddfa gofrestredig fod:

- yng Nghymru a Lloegr (os yw'ch cwmni wedi ei gofrestru yno);
- yn yr Alban (os yw'ch cwmni wedi ei gofrestru yno); neu
- yng Nghymru os yw'ch memorandwm cymdeithasiad yn dweud bod rhaid i'ch swyddfa gofrestredig fod yno (gweler cwestiwn 4 uchod).

Rhaid i'r swyddfa gofrestredig bob amser fod yn gyfeiriad effeithiol ar gyfer cyflwyno gohebiaeth a dogfennau i'r cwmni. I osgoi unrhyw oedi neu broblemau eraill, cynghorwn yn gryf fod pob gohebiaeth a anfonir i'r cyfeiriad hwn yn cael sylw prydlon gennych. Os yw'ch cwmni am newid cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig ar ôl ei ffurfio, rhaid ichi roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am y cyfeiriad newydd ar Ffurflen 287. Nes i Dŷ'r Cwmnïau gynnwys y ffurflen hon yn ei gronfa ddata, ni fydd y newid yn dod i rym. .

Bydd Tŷ'r Cwmnïau'n defnyddio cronfa gyfeiriadau Swyddfa'r Post i ddilysu cyfeiriadau. I osgoi unrhyw oedi, gofalwch ddefnyddio'r cyfeiriad cywir, gan gynnwys y côd post llawn, ar bob ffurflen a dogfen a gyflwynir i gael eu cofrestru.

9. Beth yw'r nifer isaf o swyddogion sy'n ofynnol i gwmni?

Mae'n rhaid i bob cwmni preifat benodi o leiaf un cyfarwyddwr, oni bai bod erthyglau cymdeithasiad y cwmni'n mynnu mwy nag un.

Does dim rhaid i gwmni preifat benodi ysgrifennydd cwmni, oni bai bod erthyglau cymdeithasiad y cwmni'n mynnu'n unswydd i'r cwmni fod ag un.

Rhaid i gwmni cyhoeddus fod ag o leiaf dau gyfarwyddwr ac un ysgrifennydd, sydd i fod â chymwysterau ffurfiol.

O 1 Hydref 2008 ymlaen, mae'n rhaid i bob cwmni, p'un ai preifat neu gyhoeddus y bo, wrth ei ffurfio fod ag o leiaf un cyfarwyddwr sy'n berson naturiol, sef yn unigolyn.

Mae gan bob swyddog cwmni gyfrifoldebau eang o dan y gyfraith. Cynhwysir y gofynion allweddol yn ein www.companieshouse.gov.uk .

Ar ôl ffurfio'r cwmni, mae'n rhaid ichi ddweud wrth Dŷ'r Cwmnïau :

- am benodi swyddog newydd (Ffurflen 288a);
- am derfynu penodiad swyddog cwmni (Ffurflen 288b);
- am unrhyw newid i enwau neu gyfeiriadau swyddogion neu i unrhyw rai o'r manylion personol eraill a gofrestrwyd yn wreiddiol ar Ffurflen 10 (Ffurflen 288c); ac/neu
- am unrhyw newid i gyfeiriad y swyddfa gofrestredig (Ffurflen 287).

Gallwch chi roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am unrhyw rai o'r newidiadau uchod ar-lein drwy drefn Software Filing (angen pecyn meddalwedd) neu WebFiling. Gallwch chi hefyd anfon dogfennau atom drwy'r post. Sylwer: nid ydym yn derbyn dogfennau na ffurflenni dros beiriant ffacs.

10. A gaiff unrhyw un fod yn gyfarwyddwr cwmni?

At ei gilydd, mater i'r aelodau yw penodi'r bobl y credant y byddant yn rhedeg y cwmni'n dda ar eu rhan. Yr unig gyfyngiadau sy'n atal rhywun rhag dod yn gyfarwyddwr yw;

- rhaid iddo/i beidio â bod wedi ei (g)wahardd rhag gweithredu'n gyfarwyddwr cwmni (oni bai bod y llys wedi rhoi iddo/i ganiatâd i weithredu dros gwmni arbennig);
- rhaid iddo/i beidio â bod yn fethdalydd heb ei r(h)yddhau (oni bai bod y llys wedi rhoi iddo/i ganiatâd i weithredu dros gwmni arbennig);
- rhaid iddo/i beidio â bod o dan 16 oed (o 1 Hydref 2008 ymlaen); a

- rhaid i o leiaf un cyfarwyddwr fod yn berson naturiol, sef yn unigolyn (o 1 Hydref 2008 ymlaen).

O 1 Hydref 2008 ymlaen, mae'r oedran isaf angenrheidiol yn gymwys i'r Deyrnas Unedig gyfan a bydd unrhyw un sydd heb gyrraedd 16 oed yn rhoi heibio i fod yn gyfarwyddwr. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn rhoi hysbysiad ar y gofrestr gyhoeddus i ddangos bod y penodiad wedi dod i ben. Bydd yn rhaid i'r cwmni ddiwygio'i gofrestr aelodau i ddangos bod y penodiad wedi dod i ben. Os caiff y cwmni ei adael heb gyfarwyddwr cymwys, bydd yn methu cydymffurfio a bydd angen iddo benodi o leiaf un cyfarwyddwr.

Mae cyfyngiad ar rai pobl sydd heb fod o genedligrwydd Prydeinig neu o genedligrwydd arall o fewn yr AEE o ran pa waith y cân nhw ei wneud yn y wlad hon. Os bydd arnoch chi angen rhagor o wybodaeth ynghylch a gaiff rhywun felly fynd yn gyfarwyddwr i gwmni wedi ei gofrestru yn y DU, cysylltwch â:

Home Office Immigration and Nationality Department
Lunar House
Wellesley Road
Croydon
CR9 2BY
(Ffôn: 0870 606 7766)

11. Beth yw Ffurflen 12?

Mae Ffurflen 12 yn ddatganiad statudol y cydymffurfiwyd â'r holl ofynion cyfreithiol o ran ffurfio cwmni. Gall gael ei llofnodi gan y cyfreithiwr sy'n ffurfio'r cwmni, neu gan un o'r bobl a enwyd yn gyfarwyddwr neu'n ysgrifennydd cwmni ar Ffurflen 10. Y gofynion ar gyfer cwblhau Ffurflen 12 yw:

- ei llofnodi gan gyfarwyddwr neu fod arwydd diamwys bod y sawl sydd wedi llofnodi yn gwneud hynny ar ran cyfarwyddwr corfforaethol. Os nad yw hyn yn glir, fe gaiff y ffurflen ei gwrthod;
- ei llofnodi yng ngŵydd rhywun sydd â chymwysterau addas, er enghraifft comisiynydd llwon, notari cyhoeddus, ynad heddwch neu gyfreithiwr;
- ei llofnodi a'i dyddio ar ôl llofnodi a dyddio pob dogfen arall.

12. Beth yw Cwmnïau Buddiant Cymunedol?

Mae Cwmnïau Buddiant Cymunedol (cwmnïau BC) yn fath newydd o gwmni cyfyngedig wedi ei lunio'n benodol i bobl sydd am ddilyn busnes neu weithgarwch arall er lles y gymuned ac nid yn gyfan gwbl er lles aelodau'r cwmni. Rhaid i'r rheoleiddiwr BC gymeradwyo ceisiadau am ffurfio cwmni BC ac mae ganddo rôl gyson o ran monitro a gorfodi. Ni all cwmni ddod yn gwmni BC os yw, neu os yw'n bwriadu bod, yn blaid wleidyddol neu'n gorff ymgyrchu gwleidyddol (neu'n isgwmni i'r naill neu'r llall). Yn ogystal, ni all cwmni BC fod yn elusen.

I wneud cais am gael ffurfio cwmni BC, rhaid ichi lenwi Ffurflen 36 (yn ychwanegol at y dogfennau a gafodd eu rhestru yng nghestiwn 3 uchod) y gallwch ei lawrlwytho o'r

wefan BC Mae'r wefan BC yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr am fuddion ffurfio cwmni BC, yn ogystal â manylion y profion sydd angen i ennill cymeradwyaeth i ddod yn gwmni BC.

13. Alla i ddewis unrhyw enw fynna i i'm cwmni?

Na allwch. Mae cyfyngiadau ar eich dewis o enw cwmni.

Ni fydd Tŷ'r Cwmnïau yn cofrestru enw sydd:

- yr un fath ag enw arall ar y gofrestr;
- yn cynnwys gair neu eiriau y byddai ei ddefnyddio/eu defnyddio yn dramgwydd troseddol; neu
- yn debygol o gael ei ystyried yn dramgwyddus.

Yn ychwanegol, ni fydd Tŷ'r Cwmnïau yn cofrestru enwau sy'n ymhlygu cysylltiad â llywodraeth genedlaethol neu leol heb gefnogaeth yr adran benodol o'r llywodraeth neu awdurdod lleol. Bydd eisiau caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol neu ryw gorff penodedig arall cyn y cewch chi ddefnyddio rhai geiriau.

Dylech chi hefyd wirio a yw'r enw a ddewiswyd gennych yn 'rhy debyg' i un arall sydd eisoes ar y gofrestr. Os yw'ch enw dethol yn rhy debyg i enw arall, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol eich cyfarwyddo i newid enw'r cwmni. Am ragor o wybodaeth ynghylch enwau, cyfeiriwch at ein canllaw 'Enwau Cwmni' **.**

Cyn gwneud cais am ffurfio cwmni, mae'n bwysig gwirio bod yr enw a ddymunwch i'ch cwmni yn dderbyniol. Mae gwybodaeth bellach i'w chael yn ein canllaw 'Enwau Cwmni'

O 1 Hydref 2008 ymlaen, bydd Deddf Cwmnïau 2006 yn cyflwyno darpariaethau newydd sy'n caniatáu i unrhyw berson neu gwmni wrthwynebu enw cwmni ar sail "cofrestru manteisgar" os yw'r enw:

- yr un fath ag enw sy'n gysylltiedig â'r achwynydd ac y mae ganddo/ganddi ewyllys da ynddo; neu
- mor gyffelyb fel y byddai ei ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig yn debygol o gamarwain drwy awgrymu cysylltiad rhwng y cwmni a'r achwynydd.

Sylwer: ni all Tŷ'r Cwmnïau drin unrhyw gwynion ynglŷn â chofrestru manteisgar. Dylai gwrthwynebiadau ac ymholiadau gael eu cyfeirio at y "Tribiwnlys Enwau Cwmni" (a elwir hefyd "y Dyfarnydd") sy'n cael ei weithredu a'i weinyddu gan Swyddfa Eiddo Deallusol y DU.

Os oes cofrestriad nod masnach sydd yr un fath â'r enw cwmni a ddewiswyd gennych neu'n debyg iddo, a'ch bod yn yr un math o fusnes, gallech chi wynebu achos cyfreithiol am dor-nod masnach. Am gyngor pellach, gan gynnwys sut i chwilio'r gofrestr nodau masnach, cysylltwch â Swyddfa Eiddo Deallusol y DU ar 08459 500 505 neu ymwelwch â'u gwefan

14. Ga i neilltuo'r enw unwaith fy mod wedi gwirio ei fod ar gael?

Na chewch. Ni chewch neilltuo enwau. Ni allwn warantu prosesu ceisiadau ffurfio yn nhrefn gaeth amser neu ddyddiad eu derbyn. Sylwer bod ceisiadau ffurfio cwmni a gyflwynir yn electronig at ei gilydd yn cael eu prosesu ynghynt na cheisiadau ar bapur.

15. Faint mae Tŷ'r Cwmnïau yn ei godi am ffurfio cwmni?

Ffeilio ar bapur

Ein ffi gofrestru safonol yw £20 a byddwn yn prosesu dogfennau o fewn pum diwrnod iddyn nhw ddod i law. Gallwch chi hefyd ddefnyddio'n gwasanaeth 'Yr Un Diwrnod' ar yr amod y cawn eich cais cyn 3pm (dydd Llun-dydd Gwener) a bod pob dogfen ac unrhyw wybodaeth ategol sydd angen yn dderbyniol. Y ffi am gorffori yr un diwrnod yw £50. Dylech chi wneud sieciau'n daladwy i "Tŷ'r Cwmnïau".

Rhaid marcio "Corffori yr Un Diwrnod" yn glir ar amlenni'n cynnwys ceisiadau "Yr Un Diwrnod" wedi eu postio, wedi eu hanfon drwy negesydd neu wedi eu cyflwyno'n bersonol â llaw.

Wrth ffurfio Cwmni Buddiant Cymunedol, rhaid talu ffi ychwanegol o £15 i'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol. Bydd Tŷ'r Cwmnïau'n casglu'r ffi hon ar ran y Rheoleiddiwr. Gweler pennod 4, cwestiwn 5 isod neu ymwelwch â'r wefan BC yn

Sylwer nad yw'r gwasanaeth 'Yr Un Diwrnod' ar gael i gwmnïau BC.

Gwasanaeth Software Filing

Y ffi safonol yw £15 a chost y gwasanaeth 'Yr Un Diwrnod' yw £30. I ffurfio cwmni'n electronig, mae'n rhaid ichi ddefnyddio meddalwedd addas. Mae nifer o asiantiaid ffurfio hefyd yn cynnig hyn fel gwasanaeth y codir tâl amdano. Am ragor o wybodaeth ynghylch Software Filing a WebFiling, trowch heibio i'n gwefan. Sylwer na chewch ffeilio ceisiadau am ffurfio cwmni BC yn electronig.

16. Ble galla i gael y ffurflenni sydd angen i gorffori cwmni?

Mae Ffurflenni 10 a 12 ar gael yn rhad ac am ddim gan Dŷ'r Cwmnïau a gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan Ni allwn ddarparu memorandwm nac erthyglau cymdeithasiad ond gellir cael enghreifftiau o'r dogfennau hyn gan ddogfenwyr cyfreithiol, cyfrifwyr, cyfreithwyr neu asiantiaid ffurfio cwmnïau, a all hefyd ddarparu Ffurflenni 10 a 12. Gwelir enwau a chyfeiriadau'r rhain mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.

Gallwch chi lawrlwytho Ffurflen CIC 36 ar gyfer Cwmnïau Buddiant Cymunedol drwy wefan y Rheoleiddwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol.

17. Beth sy'n digwydd i'r dogfennau a gaiff eu hanfon at y Cofrestrydd?

Mae pob dogfen ffurfio cwmni yn agored i archwiliadau arbennig, gan gynnwys gwirio i wneud yn siŵr nad yw darpar-swyddogion ar y Gofrestr Cyfarwyddwyr Gwaharddedig a gaiff ei chadw gan Dŷ'r Cwmnïau.

A bwrw bod y dogfennau'n bodloni'r gwirio angenrheidiol a'r profion derbynioldeb enwau, byddwn yn corffori'r cwmni, yn rhoi tystysgrif gorffori a bydd y dogfennau'n ymddangos ar y cofnod cyhoeddus i'w harchwilio gan y cyhoedd.

18. Alla i ddelio'n uniongyrchol â Thŷ'r Cwmnïau i ffurfio fy nghwmni?

Gall staff Tŷ'r Cwmnïau roi ichi gyfarwyddyd ynghylch enwau cwmni a'r ffurflenni sydd angen i ffurfio cwmni, yn ogystal â chyngor am y gofynion ffeilio. Ond ni allant eich cynghori ynghylch cynnwys memorandwm ac erthyglau'ch cwmni, nac ychwaith ai cwmni yw'r cyfrwng gorau i'ch busnes. Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag unrhyw agwedd ar ffurfio cwmni, dylech ystyried ceisio cyngor proffesiynol gan gyfreithiwr, cyfrifydd neu asiant ffurfio cwmnïau.

Pennod 2
Cwmnïau cyhoeddus

1. Beth yw cwmni cyhoeddus?

Fel cwmni cyhoeddus y caiff cwmni cyfyngedig sydd â chyfalaf cyfrannau ei ystyried yn yr amgylchiadau canlynol:

- lle cafodd ei gofrestru neu ei ailgofrestru'n gwmni cyhoeddus ar neu wedi 22 Rhagfyr 1980;
- bod ei femorandwm yn dweud mai cwmni cyhoeddus ydyw;
- bod ei enw'n diweddu â 'Public Limited Company neu 'PLC' (neu os yw'n gwmni Cymreig – sef, yn gwmni y dywed ei femorandwm fod rhaid i'w swyddfa gofrestredig fod yng Nghymru – caiff ddefnyddio'r teitlau Cymraeg cyfatebol 'Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus' neu 'CCC'); a
- bod ganddo gyfalaf cyfrannau awdurdodedig o £50,000 **neu** €65,600 o leiaf, a bod ei femorandwm yn nodi hyn.

Gall erthyglau cwmni cyhoeddus fod fel y gosodir yn Nhabl A. Am ragor o wybodaeth ynghylch erthyglau cymdeithasiad, gweler pennod 1, cwestiynau 5 a 6 uchod.

Mae'r pwynt ychwanegol a ganlyn yn gymwys i Gwmni Buddiant Cymunedol sydd hefyd yn gwmni cyhoeddus:

- rhaid i'w enw ddiweddu â 'community interest public limited company' neu 'community interest p.l.c.' (neu os yw'n gwmni Cymreig, caiff ddefnyddio'r teitlau Cymraeg cyfatebol 'cwmni buddiant cymunedol cyhoeddus cyfyngedig' neu 'cwmni buddiant cymunedol c.c.c').
- mae memoranda ac erthyglau cymdeithasiad enghreifftiol ar gyfer cwmnïau o'r fath i'w cael ar wefan y Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol

2. Pryd caiff cwmni cyhoeddus ddechrau gwneud busnes?

Ni chaiff cwmni cyhoeddus newydd ei ffurfio ddechrau gwneud busnes nac arfer unrhyw bwerau benthyca nes bod Tŷ'r Cwmnïau wedi rhoi iddo dystysgrif fasnachu o dan adran 761 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (gynt o dan adran 117 o Ddeddf Cwmnïau 1985).

Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn caniatáu Tystysgrif Fasnachu i gwmni cyhoeddus os yw'n fodlon nad yw gwerth cyfalaf cyfrannau clustnodedig y cwmni yn llai na £50,000 neu €65,600. Rhaid bodloni'r rheidrwydd hwn yn gyfan gwbl naill ai drwy arian sterling neu ewros, gan na fydd cymysgedd rhwng y ddau yn ddigon i ddiwallu'r gofynion cyfreithiol. (Nid yw hyn yn atal gweddill cyfalaf y cwmni rhag bod ar ffurf cymysgedd rhwng sterling, ewros a hyd yn oed fathau eraill o arian treigl).

Gallwch chi ofyn am dystysgrif fasnachu drwy gyflwyno cais i Dŷ'r Cwmnïau ar Ffurflen 117 wedi ei haddasu i gymryd i ystyriaeth newidiadau wedi eu gwneud gan Ddeddf Cwmnïau 2006.

I gynorthwyo ymgeiswyr, mae Tŷ'r Cwmnïau wedi cynhyrchu fersiwn addasedig o Ffurflen 117 sy'n cymryd y newidiadau i ystyriaeth ('Ffurflen Ddiwygiedig 117'). Hwyrach y byddwch chi am geisio cyngor cyfreithiol am yr addasiadau sydd angen i gael parhau i ddefnyddio Ffurflen flaenorol 117 ('Ffurflen Gyfredol 117') sydd ar gael drwy'n gwefan yn www.companieshouse.gov.uk

Unwaith ei caiff ei chaniatáu, mae tystysgrif fasnachu'n brawf bod gan y cwmni hawl i wneud busnes ac arfer pwerau benthyca. Bydd Tŷ'r Cwmnïau fel arfer yn postio'r dystysgrif atoch, ond gallwn anfon copi ffacs i'w gasglu yn unrhyw un o swyddfeydd Tŷ'r Cwmnïau os gofynnwch am hyn wrth gyflwyno'ch ffurflen gais.

Mae gwybodaeth bellach am gyfalaf cyfrannau i'w chael yn ein canllaw 'Cyfalaf Cyfrannau ' ar ein gwefan.

3. A gaiff cwmni cyhoeddus ddosbarthu cyfrannau mewn arian treigl arall?

Caiff, caiff cwmni cyhoeddus ddosbarthu cyfrannau mewn arian treigl arall yn lle sterling (neu yn lle ewros), ar yr amod bod hyn yn rhan o'i gyfalaf cyfrannau awdurdodedig. Caiff cwmni ddefnyddio cymaint o fathau o arian treigl ag y myn ar gyfer ei gyfalaf cyfrannau.

Ond nid yw hyn yn newid y rheidrwydd cychwynnol ynglŷn â'r lleiafswm cyfalaf cyfrannau clustnodedig y mae'n rhaid iddo fod ym meddiant cwmni cyhoeddus. Eglurwyd y rheidrwydd hwnnw uchod a dim ond drwy arian sterling, neu, os bydd y cwmni'n dewis yn benodol i'r perwyl hwnnw, drwy arian ewro, y gellir ei fodloni. Ni chaiff unrhyw arian treigl arall ei gymryd i ystyriaeth i'r diben hwn.

4. Oes unrhyw gyfyngiadau eraill ar gwmni cyhoeddus?

Oes. Mae sawl cyfyngiad allweddol:

- Rhaid i gwmni cyhoeddus fod ag o leiaf dau aelod ac o leiaf dau gyfarwyddwr cwmni (a allai hefyd fod yn aelodau o'r cwmni);

- Rhaid i o leiaf un cyfarwyddwr fod yn berson naturiol, sef yn unigolyn (o 1 Hydref 2008 ymlaen);
- Rhaid i gyfarwyddwyr unigol beidio â bod yn iau nag 16 oed (o 1 Hydref 2008 ymlaen);
- Rhaid i gwmni cyhoeddus fod ag o leiaf un ysgrifennydd y mae'n ymddangos i'r cyfarwyddwyr fod ganddo/i'r wybodaeth a'r gallu angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaethau ac sy'n bodloni o leiaf un o'r cymwysterau canlynol:

  (a) am o leiaf tair o'r pum mlynedd cyn ei b/phenodi, wedi dal swydd ysgrifennydd i gwmni cyhoeddus; neu

  (b) yn fargyfreithiwr, yn adfocad neu'n gyfreithiwr a alwyd neu a dderbyniwyd mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig; neu

  (c) yn rhywun, yn rhinwedd ei b/phrofiad blaenorol neu ei (h)aelodaeth o gorff arall, yr ymddengys i'r cyfarwyddwyr ei f/bod yn alluog i gyflawni swyddogaethau ysgrifennydd; neu

  (d) yn aelod o unrhyw un o'r cyrff canlynol:

  - Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;
  - Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban;
  - Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon;
  - Sefydliad yr Ysgrifenyddion a'r Gweinyddwyr Siartredig;
  - Cymdeithas Siartredig y Cyfrifwyr Ardystiedig;
  - Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli (gynt Sefydliad y Cyfrifwyr Costio a Rheoli); neu
  - y Sefydliad Siartredig ar gyfer Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg.
- Ni all cwmni cyhoeddus fanteisio ar lawer o'r darpariaethau a'r eithriadau sy'n gymwys i gwmnïau preifat o dan y Deddfau Cwmnïau, megis eithrio cwmnïau preifat bach rhag archwilio ariannol.
- Ni all cwmni cyhoeddus wneud cais am ddileu'n wirfoddol o'r gofrestr o dan adran 652A, Deddf Cwmnïau 1985. Mae gwybodaeth bellach am hyn i'w chael yn ein canllaw 'Dileu o'r Gofrestr, Diddymu ac Adfer'; ac
- Fel arfer, dim ond chwe mis ar ôl diwedd ei 'gyfnod cyfeirnod cyfrifeg' fydd gan gwmni cyhoeddus (saith mis ar gyfer blynyddoedd ariannol yn dechrau cyn 6 Ebrill 2008) i gyflwyno'i gyfrifon a'i adroddiadau i Dŷ'r Cwmnïau. Caiff cosb ffeilio hwyr ei

thynnu os bydd yn cyflwyno cyfrifon ar ôl yr amser a ganiateir. Gweler ein canllaw 'Cosbau Ffeilio Hwyr' .

5. Beth yw mantais ffurfio cwmni cyhoeddus?

Bydd gan gwmni cyhoeddus fynediad i farchnadoedd cyfalaf a chaiff gynnig gwerthu ei gyfrannau i'r cyhoedd (fel arfer, ond nid bob tro), drwy gyfnewidfa stoc gydnabyddedig. Caiff hefyd ddosbarthu hysbysiadau'n cynnig gwerthu unrhyw rai o'i warannoedd i'r cyhoedd. O'i wrthgyferbynnu, ni chaiff cwmni preifat sydd â chyfalaf cyfrannau gynnig ei gyfrannau i'r cyhoedd.

6. Ydy'r rheolau hyn yn gymwys i gwmni cyhoeddus tramor?

Nid yw mwyafrif y rheolau uchod yn gymwys i gwmni a gafodd ei ffurfio dramor. Wrth sefydlu cangen neu le busnes ym Mhrydain Fawr, mae'n rhaid i gwmnïau wedi eu ffurfio y tu allan i'r Deyrnas Unedig a Gibraltar gydymffurfio â rheolau Rhan XXIII o Ddeddf Cwmnïau 1985.

Fodd bynnag, yn ychwanegol at y rheoliadau a gaiff eu gosod yng ngwlad ei ffurfio, a gofynion Rhan XXIII o Ddeddf 1985, bydd cwmni cyhoeddus tramor hefyd wedi ei lywio gan rannau arbennig o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000, a chan Gôd y Ddinas ar Feddiannu ac Uno Cwmnïau.

Pennod 3

Cwmnïau unig aelod

1. Beth yw cwmni unig aelod?

Cwmni unig aelod yw cwmni preifat wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau neu warant ac a gaiff ei ffurfio gydag un aelod, neu y caiff ei aelodaeth ei leihau i un aelod.

2. Sut gall unig aelod gynnal cyfarfodydd cyffredinol?

Mae un aelod – yn bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy – yn gworwm yn yr amgylchiadau hyn. Os cynhaliwch gyfarfod o'r fath, rhaid ichi sôn amdano yn y cofnodion.

Os cymrwch chi benderfyniad fel unig aelod, ar wahân i drwy benderfyniad ysgrifenedig ffurfiol gan y cwmni, mae'n rhaid rhoi cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad i'r cwmni. (Diben hyn yw sicrhau parhad y cofnodion os byddwch chi'n gwerthu rhan neu'r cyfan o'ch buddiant yn y cwmni.)

3. Sut dylai cwmni gofnodi contract anysgrifenedig ag unig aelod?

Os bydd i'r cwmni dynnu contract anysgrifenedig â'r unig aelod sydd hefyd yn gyfarwyddwr i'r cwmni (a'r contract heb fod yn rhan o fusnes arferol y cwmni), rhaid i'r cwmni sicrhau bod telerau'r contract yn cael eu nodi mewn memorandwm neu yng nghofnodion cyfarfod nesa'r cyfarwyddwyr.

4. Beth am y gofrestr aelodau?

Rhaid i gofrestr aelodau'r cwmni gofnodi ei aelodau'n fanwl-gywir. Rhaid i gofrestr aelodau cwmni un-aelod gynnwys datganiad unswydd i'r perwyl mai dim ond un aelod sydd i'r cwmni, gan nodi'r dyddiad y daeth y cwmni'n gwmni un-aelod.

Os oedd mwy nag un aelod gan y cwmni'n wreiddiol a bod yr aelodaeth yn gostwng i un, yna mae'n rhaid i'r gofrestr gynnwys datganiad unswydd i'r perwyl mai dim ond un aelod sydd i'r cwmni, gan nodi'r dyddiad y daeth y cwmni'n gwmni un-aelod.

Os bydd aelodaeth cwmni un-aelod yn cynyddu'n ddiweddarach, mae'n rhaid ichi gofnodi manylion pob aelod newydd yn y gofrestr aelodau. Dylech chi gofnodi datganiad unswydd i'r perwyl nad yw'r cwmni'n gwmni un-aelod mwyach, gyda'r dyddiad y daeth hynny i fod.

Pennod 4

Ailgofrestru cwmni a hefyd troi cwmni yn Gwmni Buddiant Cymunedol (cwmni BC)

1. A all cwmni preifat droi'n cwmni cyhoeddus?

Gall. Gall cwmni preifat wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau a chwmni anghyfyngedig gyda chyfalaf cyfrannau ailgofrestru'n gwmni cyhoeddus, ond ni all cwmni heb gyfalaf cyfrannau. Mae'n rhaid i gwmni preifat sydd am ddod yn gwmni cyhoeddus fabwysiadu penderfyniad arbennig y dylai gael ei ailgofrestru felly'n gwmni cyhoeddus, gan gyflwyno copi o'r penderfyniad, ynghyd â'r ffurflen gais, i Dŷ'r Cwmnïau. Rhaid hefyd i'r penderfyniad:

- ddiwygio memorandwm y cwmni fel ei fod yn dweud bod y cwmni i fod yn gwmni cyhoeddus;
- gwneud unrhyw newidiadau eraill i'r memorandwm yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion sy'n ymwneud â chwmni cyfyngedig cyhoeddus; a
- gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i erthyglau cymdeithasiad y cwmni.

Mae gwybodaeth bellach am benderfyniadau i'w chael yn ein canllaw Penderfyniadau

Mae'n rhaid i un o gyfarwyddwyr neu ysgrifennydd y cwmni lofnodi'r cais sydd i fod ar Ffurflen 43(3), gan gyflwyno hefyd y canlynol:

- copi o femorandwm ac erthyglau cymdeithasiad y cwmni wedi eu diwygio yn unol â'r penderfyniad arbennig a gafodd ei drafod uchod;
- copi o fantolen wedi ei pharatoi nid mwy na saith mis cyn dyddiad y cais, ynghyd â chopi o adroddiad diamod gan archwilwyr ariannol y cwmni;
- copi o ddatganiad ysgrifenedig gan archwilwyr ariannol y cwmni yn dweud nad oedd asedion net y cwmni ar ddyddiad y fantolen, yn eu barn nhw, yn llai na chyfalaf cyfrannau galwedig y cwmni a'i gronfeydd annosbarthadwy;

- copi o adroddiad prisio yn ymwneud ag unrhyw gyfrannau a gafodd eu clustnodi wedi eu talu'n llawn neu'n rhannol heblaw am drwy arian parod, ar ôl dyddiad y fantolen ond cyn mabwysiadu'r penderfyniad arbennig;

- datganiad statudol wedi ei wneud gan un o gyfarwyddwyr neu ysgrifennydd y cwmni ar Ffurflen 43(3)(e) yn cadarnhau bod y cwmni wedi mabwysiadu'r penderfyniad ac na fu newid i sefyllfa ariannol y cwmni sydd wedi achosi gostwng ei asedion net yn is na swm cyfranred ei gyfalaf cyfrannau galwedig a'i gronfeydd annosbarthadwy; a

- Ffurflen Benodi 288(a) os nad oes ysgrifennydd penodedig gan y cwmni, gan ei bod yn ofynnol i gwmni cyhoeddus fod ag ysgrifennydd cwmni cymwysedig.

Yn ychwanegol at y gofynion uchod, mae'n rhaid i gwmni preifat sy'n ceisio ailgofrestriad fel cwmni cyhoeddus feddu, adeg mabwysiadu'r penderfyniad arbennig i ailgofrestru, ar gyfalaf cyfrannau clustnodedig sydd â gwerth nominal o nid llai na £50,000 neu €65,600. Rhaid i bob un o'r cyfrannau clustnodedig fod wedi ei thalu hyd at chwarter y gwerth nominal, ynghyd â'r premiwm cyfan os oes un.

Os dymunwch ailgofrestru'n gwmni cyhoeddus ac os byddwch yn dewis bodloni'r rheidrwydd cyfalaf cyfrannau isaf drwy ewros yn hytrach nag arian sterling, mae angen gwneud y dewis hwn drwy fabwysiadu Ffurflen 43(3). I gynorthwyo ymgeiswyr, mae Tŷ'r Cwmnïau wedi cynhyrchu fersiwn diwygiedig o Ffurflen 43(3) (ar gael ar-lein) sy'n cydymffurfio â'r rheidrwydd i wneud dewis penodol i ddefnyddio ewros. Os dymunwch, cewch barhau i ddefnyddio Ffurflen benodedig 43(3) ond bydd angen ichi ei haddasu wrth wneud y dewis i ddefnyddio ewros.

Ffurflen benodedig 43(3) heb ei haddasu yw'r ffurflen briodol i'w defnyddio o hyd ar gyfer cwmnïau sy'n bodloni'r rheidrwydd cyfalaf cyfrannau isaf drwy arian sterling.

Yn ychwanegol at yr uchod, mae'n rhaid i gwmni anghyfyngedig:

- gynnwys datganiad yn ei benderfyniad arbennig i'r perwyl bod atebolrwydd yr aelodau i fod wedi ei gyfyngu ac yn nodi lefel arfaethedig cyfalaf cyfrannau'r cwmni; a

- gwneud y newidiadau hynny sydd angen i'r memorandwm a'r erthyglau cymdeithasiad er mwyn iddyn nhw gydymffurfio â'r rhai sy'n briodol i gwmni wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau.

2. A all cwmni cyhoeddus droi'n gwmni preifat?

Gall. Caiff cwmni cyhoeddus ailgofrestru'n gwmni preifat wedi ei gyfyngu drwy gyfrannau neu drwy warant, drwy fabwysiadu penderfyniad arbennig i wneud felly. Ond os bydd digon o aelodau'n gwrthwynebu mabwysiadu'r penderfyniad, gallant wneud cais i'r Llys (o dan adran 54 o Ddeddf Cwmnïau 1985) am ddileu'r penderfyniad. Bydd angen gwneud y cais hwn o fewn 28 diwrnod i fabwysiadu'r penderfyniad. Gall y Llys naill ai dileu neu gadarnhau'r penderfyniad arbennig wrth wrando cais o'r fath.

Rhaid i'r cais a gaiff ei gyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau am ailgofrestriad fod ar Ffurflen 53. Rhaid cyflwyno gyda'r Ffurflen 53 gopïau o'r penderfyniad, ac o femorandwm ac

erthyglau cymdeithasiad y cwmni fel y cawsant eu haddasu i gwrdd ag amgylchiadau newydd y cwmni.

Gall y Llys hefyd orchymyn i gwmni cyhoeddus ailgofrestru'n un preifat wrth gymeradwyo 'cofnod lleihau' yng nghyswllt y cyfalaf cyfrannau sy'n golygu bod y cyfalaf cyfrannau dosbarthedig yn syrthio islaw'r isafswm statudol.

Mewn achos o'r fath bydd y Llys hefyd yn pennu diwygiadau i femorandwm ac erthyglau cymdeithasiad y cwmni. Nid yw penderfyniad arbennig i ailgofrestru yn ofynnol yn yr amgylchiadau hyn.

Fel arall, efallai y bydd yn rhaid i gwmni cyhoeddus ailgofrestru'n breifat os bydd i'w gyfalaf cyfrannau clustnodedig ddisgyn islaw'r lleiafswm statudol drwy ryw ddull arall ar wahân i Orchymyn Llys. Mae dulliau eraill yn cynnwys fforffedu, ildio neu feddiannu cyfrannau.

Ymhob achos (ac eithrio lle bo llys wedi pennu mewn gorchymyn y diwygiadau sydd i'w gwneud), bydd angen i'r cwmni fabwysiadu penderfyniad i ddiwygio'r memorandwm a'r erthyglau cymdeithasiad i fodloni gofynion cwmni preifat.

3. Beth yw cost ailgofrestru (i gwmnïau heb gynnwys cwmnïau Buddiant Cymunedol)?

Y ffi safonol am ailgofrestru yw £20, neu £50 am wasanaeth premiwm yr un diwrnod. Os yw'r cwmni'n ailgofrestru ac yn newid enw yr un pryd, bydd ffi ychwanegol o £10 am newid enw hefyd yn daladwy, felly'r ffi gyfan fydd £30 (neu £100 am wasanaeth premiwm yr un diwrnod).Yn gryno, y ffioedd yw:

- Ailgofrestru £20;
- Ailgofrestru yr un diwrnod £50;
- Ailgofrestru a newid enw gyda'i gilydd £30; ac
- Ailgofrestru a newid enw gyda'i gilydd yr un diwrnod £100.

Byddai dileu'r geiriau 'cwmni' neu 'a'r cwmni' (neu eu talfyriadau neu'r geiriau Saesneg cyfatebol) o enw'r cwmni fel arfer yn golygu newid enw. Ond nid yw hyn yn wir wrth ailgofrestru. Os bydd gennych chi unrhyw amheuon ynglŷn â'r ffi briodol, cysylltwch â ni ar 0303 1234 500.

4. A all cwmni presennol droi'n Gwmni Buddiant Cymunedol?

Gall, fe all cwmni presennol wneud cais i'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol am droi'n Gwmni Buddiant Cymunedol. Am fanylion pellach, cyfeiriwch at wefan y Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol.

5. Beth yw ffioedd Cwmnïau Buddiant Cymunedol?

Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn casglu ffioedd ar ran y Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol. Y ffioedd ar gyfer Cwmnïau BC yw:

- Trosi'n Gwmni Buddiant Cymunedol: £25 (mae £15 i'w briodoli i Dŷ'r Cwmnïau a £10 i'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol);
- Newid enw: £10 (i'w briodoli'n llwyr i Dŷ'r Cwmnïau); www.cicregulator.gov.uk/guidance/Resolutions/SpecResToConvertCompanyToCIC.doc
- Newid statws (e.e. o breifat i gyhoeddus): £35 (mae £20 i'w briodoli i Dŷ'r Cwmnïau a £15 i'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol); a
- Throsi i Gwmni Buddiant Cymunedol a newid statws yr un pryd (Ailgofrestru): £35 (mae £20 i'w briodoli i Dŷ'r Cwmnïau a £15 i'r Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol).

Sylwer nad yw gwasanaeth yr un diwrnod ar gael i gwmnïau Buddiant Cymunedol.

Pennod 5

Cyhoeddi enw'r cwmni, a'r manylion sydd i'w dangos ar gyfathrebiadau'r cwmni

Rhaid i gwmni nodi ei enw (fel yr ymddengys yn ei femorandwm cymdeithasiad) yn ei swyddfa gofrestredig ac weithiau mewn swyddfeydd eraill ac ar bob cyfathrebiad. Rhaid i'r cwmni hefyd roi gwybodaeth arbennig arall ar ei holl lythyrau busnes, ffurflenni archebu a gwefannau.

Cyflwynodd Rheoliadau Cwmnïau (Datgeliadau Masnachu) (Offeryn Statudol 2008/495) nifer o newidiadau i'r gofynion presennol o ran datgelu masnachol o 1 Hydref 2008 ymlaen.

1. Ble a sut mae'n rhaid dangos enw'r cwmni?

Rhaid i gwmni ddangos ei enw:

- yn ei swyddfa gofrestredig a'r man lle cedwir ei gofnodion cwmni i gael eu harchwilio. O 1 Hydref 2008 ymlaen, ni fydd y rheidrwydd hwn yn gymwys i gwmni segur os bu'n segur yn gyson ers ei gorffori, h.y. na chafodd "drafodion cyfrifeg arwyddocaol" yn ystod blwyddyn ariannol ac na chynhwyswyd dim yng nghofnodion cyfrifeg y cwmni. Cyfeiriwch at ein canllaw 'Cwmnïau Segur' .
- mewn unrhyw leoliad arall lle mae'n dilyn busnes. Ond o 1 Hydref 2008 ymlaen, ni fydd y rheidrwydd hwn yn gymwys os caiff y lleoliad ei ddefnyddio'n bennaf fel lle byw. Er enghraifft, os oedd y lleoliad hwnnw'n gartref i gyfarwyddwr;

- ar ei holl ohebiaeth a dogfennaeth fusnes (fel copi caled, ar ddiwyg electronig neu unrhyw ddiwyg arall), gan gynnwys:
    - llythyrau busnes y cwmni a'i ffurflenni archebu;
    - pob bil cyfnewid, addaweb, arnodiad, siec ac archeb arian neu archeb nwyddau yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran y cwmni;
    - datganiadau o eitemau taladwy, anfonebau, derbynebau a llythyrau credyd; ac
    - ar ei wefannau.

Cyfeiriwch at Reoliadau Cwmnïau (Datgeliadau Masnachu) 2008 (Offeryn Statudol 2008/495).

Rhaid i'r enw fod mewn arwyddnodau y gall y llygad noeth eu darllen a chael ei arddangos yn gyson. O 1 Hydref 2008 ymlaen, lle caiff y swyddfa, y man neu'r lleoliad ei rannu gan chwech neu ragor o gwmnïau, dim ond am o leiaf 15 eiliad yn ddi-dor o leiaf unwaith bob tair munud y mae'n rhaid i bob cwmni ddangos ei enw cofrestredig (diben hyn yw caniatáu arddangosiadau electronig sydd ag enwau eiledol).

2. Oes rhaid imi ddangos unrhyw fanylion cwmni eraill?

Oes. Ar ei holl lythyrau busnes, ffurflenni archebu (p'un ai fel copi caled, ar ffurf electronig neu unrhyw ffurf arall) a gwefannau'r cwmni, mae'n rhaid i'r cwmni ddangos mewn ysgrifen ddarllenadwy:

(a) y rhan o'r Deyrnas Unedig lle cafodd y cwmni ei gofrestru, sef:

I gwmnïau wedi eu cofrestru yng Nghymru a Lloegr, naill ai:

Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr; neu

Cofrestrwyd yng Nghymru; neu

Cofrestrwyd yn Lloegr; neu

Cofrestrwyd yng Nghaerdydd; neu

Cofrestrwyd yn Llundain.

I gwmnïau wedi eu cofrestru yn yr Alban:

Cofrestrwyd yn yr Alban; neu

(b) rhif cofrestru'r cwmni;

(c) Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni.

Os bydd llythyr busnes, ffurflen archebu neu unrhyw wefannau sydd gan y cwmni yn sôn am fwy nag un cyfeiriad, argymhellir eich bod yn nodi p'un o'r cyfeiriadau yw cyfeiriad y swyddfa gofrestredig.

3. Oes yna ofynion ychwanegol?

Rhaid i rai mathau o gwmni ddangos yr wybodaeth ychwanegol ganlynol ar eu llythyrau busnes, ffurflenni archebu (boed ar gopi caled, ffurf electronig neu unrhyw ffurf arall) ac ar wefannau:

a. ar gyfer cwmni cyfyngedig sydd wedi ei eithrio rhag defnyddio'r gair 'cyfyngedig' ('limited') yn ei enw, mai cwmni cyfyngedig ydyw;

b. ar gyfer cwmni buddiant cymunedol nad yw'n gwmni cyhoeddus, mai cwmni cyfyngedig ydyw;

c. ar gyfer cwmni buddsoddi yn unol â diffiniad adran 833 o Ddeddf Cwmnïau 2006, mai cwmni o'r fath ydyw;

d. Ar gyfer cwmni gyda chyfalaf cyfrannau, does dim rhaid datgan cyfalaf cyfrannau ar ddeunydd ysgrifennu, ond os yw'r cwmni yn dewis i wneud hyn, rhaid datgan ei gyfalaf taledig.

4. Oes rhaid imi ddangos enwau cyfarwyddwyr?

Does dim rhaid i gwmni nodi enwau'r cyfarwyddwyr ar ei lythyrau busnes, ond os dewisa wneud hynny, rhaid iddo nodi enw pob cyfarwyddwr. Mewn geiriau eraill, ni all cwmni fod yn ddetholus o ran enwau pa gyfarwyddwyr y bydd yn eu dangos – rhaid iddo eu dangos i gyd neu ddim un.

5. Oes yna reolau arbennig i gwmnïau elusennol?

Mae adran 68 o Ddeddf Elusennau 1993 yn darparu bod rhaid i gwmni elusennol nad yw ei enw'n cynnwys y gair 'elusen' ('charity') neu 'elusennol' ('charitable') nodi'r ffaith mai elusen ydyw ar bob dogfen gwmni, gan gynnwys llythyrau busnes, hysbysiadau, anfonebau, biliau cyfnewid, addawebau ac ar unrhyw drawsgludiadau y bydd yn eu cyflawni. Y ddeddfwriaeth berthnasol yn yr Alban yw Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005.

6. Ydy'r rheolau'n gymwys i gwmnïau tramor?

Mae'n rhaid i gwmni a gafodd ei ffurfio y tu allan i Brydain Fawr ac sy'n agor cangen neu le busnes ym Mhrydain Fawr gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a rhaid iddo arddangos yn gyhoeddus fanylion tebyg i'r rhai sydd wedi eu nodi yn y bennod hon. Rhestrir manylion llawn yn ein canllaw 'Oversea Companies'

7. Beth os yw'r cwmni'n cael ei ddirwyn i ben?

Os yw'r cwmni'n cael ei ddirwyn i ben neu yn nwylo'r gweinyddydd neu'r derbynnydd neu fod moratoriwm mewn grym yng nghyswllt ei ddyledion, rhaid i bob anfoneb, archeb nwyddau, llythyr busnes neu ffurflen archebu (boed ar gopi caled, ffurf electronig neu unrhyw ffurf arall) gynnwys datganiad bod y cwmni yn cael ei ddirwyn i ben.

8. Oes rhaid i'r enw cyhoeddedig fod yn hollol yr un fath ag enw cofrestredig y cwmni?

Caniateir mân amrywiadau yn ffurf yr enw, gan gynnwys llythrennau bach a mawr, defnydd atalnodi, acenion ac ati, a fformadu. Ond mae'n rhaid i'r gwahaniaethau beidio ag arwain at beryg dryswch.

9. Pa wybodaeth y mae'n ofynnol i'r cwmni ei datgelu wrth gael cais ysgrifenedig?

O 1 Hydref 2008 ymlaen, gall rhywun sy'n delio â chwmni gyflwyno cais ysgrifenedig am i'r cwmni ddatgelu cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig, unrhyw le archwilio (neu fan arall lle cedwir cofnodion y cwmni) a'r math o gofnodion cwmni a gedwir yn y swyddfa honno neu'r lle hwnnw. Rhaid i'r cwmni anfon ateb ysgrifenedig at y person hwnnw o fewn pum diwrnod gwaith i dderbyn y cais dan sylw.

10. Beth os bydd y cwmni'n methu cydymffurfio â'r gofynion datgelu hyn?

Bydd y cwmni a phawb o'i swyddogion sy'n methu cydymffurfio yn cyflawni tramgwydd a gallant fod yn agored i gael dirwy. Ond o 1 Hydref 2008 ymlaen, fe ddileir atebolrwydd sifil personol y swyddogion o dan Ddeddf Cwmnïau 1985. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, os bydd swyddog cwmni yn llofnodi siec ar ran y cwmni yn groes i'r gofynion datgelu, na fydd mwyach yn bersonol atebol i ddygiedydd y siec am unrhyw arian.

Pennod 6

Y cwmni newydd - edrych ymlaen

Mae gan gyfarwyddwyr cwmni gyfrifoldeb personol am drefnu i wybodaeth am fframwaith cyfalaf, rheolaeth a gweithgareddau eu cwmnïau fod ar gael i aelodau'r cwmni ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.

1. A fydd rhaid imi baratoi cyfrifon cwmni?

Bydd. I bob cwmni sydd ag atebolrwydd wedi ei gyfyngu, nodwedd bwysig ar y gyfraith gwmnïau yw'r rheidrwydd, at ei gilydd, i gyfarwyddwyr y cwmni baratoi cyfrifon ac anfon copi i Dŷ'r Cwmnïau i'w gynnwys ar y gofrestr gyhoeddus.

Mae darpariaethau gwahanol (a mwyafrif y rheiny i'w cael bellach yn Neddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaed o dani) o ran diwyg priodol eich cyfrifon. Ni all Tŷ'r Cwmnïau gynghori ynghylch cynnwys cyfrifon cwmnïau. Argymhellwn, felly, fod cwmnïau'n ceisio cyngor proffesiynol wrth baratoi cyfrifon. Rhaid i bob cwmni cyhoeddus a phob cwmni cyfyngedig preifat ffeilio cyfrifon, ac o dan rai amgylchiadau mae'n rhaid hefyd i gwmnïau anghyfyngedig ffeilio cyfrifon.

Fe welwch chi wybodaeth bellach yn ein canllaw 'Cyfrifon a Dyddiadau Cyfeirnod Cyfrifeg'.

2. Pa gyfnod y dylai'r cyfrifon ei fodloni?

Rhaid i gyfrifon cynta'r cwmni ddechrau ar ddydd ei ffurfio. Rhaid i'r flwyddyn ariannol gyntaf ddod i ben ar y 'dyddiad cyfeirnod cyfrifeg' (DCC) neu ar ddyddiad hyd at saith diwrnod y naill ochr neu'r llall i'r dyddiad hwn.. Bydd cyfrifon olynol yn dechrau ar y diwrnod ar ôl dyddiad diwedd-blwyddyn y cyfrifon blaenorol. Deuant i ben ar y 'dyddiad cyfeirnod cyfrifeg' nesaf neu ar ddyddiad hyd at saith diwrnod y naill ochr neu'r llall.

3. Sut pennir y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg?

Y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg yw'r dyddiad a ddefnyddir bob blwyddyn i bennu blwyddyn ariannol y cwmni. I bob cwmni newydd, caiff y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg cyntaf ei bennu'n awtomatig fel blwyddyn ar ôl dydd ola'r mis y ffurfiwyd y cwmni. Bydd y dyddiadau cyfeirnod cyfrifeg olynol ar yr un dydd bob blwyddyn yn awtomatig. Er enghraifft, os cafodd y cwmni ei ffurfio ar 6 Ebrill 2008, pennid 30 Ebrill 2009 yn ddyddiad cyfeirnod cyfrifeg iddo, a 30 Ebrill bob blwyddyn wedyn.

4. Oes modd newid y dyddiad cyfeirnod cyfrifeg?

Oes. Y ffordd gyflymaf a hawsaf i newid eich DCC yw drwy ddefnyddio'n gwasanaethau Software Filing a WebFiling. Fel arall, gallwch chi anfon ffurflen newid DCC (Ffurflen 225) i Dŷ'r Cwmniau. Rhaid ichi wneud hyn o fewn y cyfnod cyfrifeg yr effeithir arno gan y newid neu yn ystod y cyfnod a ganiateir ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon cysylltiedig inni

Am ragor o wybodaeth gweler ein canllaw Cyfrifon a Dyddiadau Cyfeirnod Cyfrifeg' .

5. Faint o amser sydd gen i i gyflwyno cyfrifon?

Mae hyn yn dibynnu ar y "cyfnod cyfeirnod cyfrifeg", sef y cyfnod o 12 mis yn dod i ben ar bob dyddiad cyfeirnod cyfrifeg. Ar gyfer cyfrifon sy'n dechrau ar neu wedi 6 Ebrill 2008:

(a) Mae'n rhaid cyflwyno cyfrifon cyntaf cwmni preifat:

- o fewn naw mis i ddiwedd y cyfnod cyfeirnod cyfrifeg; neu
- os yw'r cyfnod cyfeirnod cyfrifeg cyntaf yn hirach na 12 mis, o fewn 21 mis i ddyddiad ei ffurfio, neu dri mis i ddiwedd y cyfnod cyfeirnod cyfrifeg, p'un bynnag sydd hiraf.

(b) Rhaid cyflwyno cyfrifon cyntaf cwmni cyhoeddus:

- o fewn chwe mis i ddiwedd y cyfnod cyfeirnod cyfrifeg; neu

- os yw'r cyfnod cyfeirnod cyfrifeg yn hirach na 12 mis, o fewn 18 mis i'r dyddiad ei ffurfio, neu dri mis i ddiwedd y cyfnod cyfeirnod cyfrifeg, p'un bynnag sydd hiraf.

Ar gyfer cyfnodau cyfrifeg yn dechrau cyn 6 Ebrill 2008, gweler ein canllaw 'Cyfrifon a Dyddiadau Cyfeirnod Cyfrifeg' **.**

6. Beth am y ffurflen flynyddol?

Rhaid i bob cwmni gyflwyno ffurflen flynyddol i Dŷ'r Cwmniau o leiaf unwaith bob 12 mis. Dyma ddogfen fydd yn rhoi gwybodaeth neilltuol am faterion y cwmni ar ddyddiad arbennig yn y flwyddyn, a elwir yn 'ddyddiad cyfreithiol cyfleu manylion'.

Mae gan y cwmni 28 diwrnod o'i ddyddiad cyfreithiol cyfleu-manylion i gyflwyno'r ffurflen flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau. Am wybodaeth bellach, gweler ein canllaw "Ffurflenni Flynyddol" .

7. Beth arall sy'n rhaid imi ei ddweud wrth Dŷ'r Cwmnïau?

Dyma rai o'r pethau pwysig y mae'n rhaid ichi ddweud wrthym amdanynt. Yn y mwyafrif o achosion, bydd terfyn amser ar gyfer hysbysu Tŷ'r Cwmnïau am y newid perthnasol ac mae ffurflen wedi ei chreu'n arbennig ichi ei defnyddio i roi gwybod inni am y newid. Mae hyn yn cynnwys:

(a) Rhoi gwybod am newid cyfarwyddwr/cyfarwyddwyr ac ysgrifennydd, o fewn 14 diwrnod, ar gyfer:

Penodiadau (Ffurflen 288), terfyniadau (Ffurflen 288b) a newid manylion personol swyddogion cwmni (Ffurflen 288c). Mae ffeilio'r ffurflenni hyn yn llawer cyflymach os defnyddiwch ein gwasanaethau Software Filing neu WebFiling.

(b) Cyfrannau:

Manylion cyfrannau newydd sy'n cael eu clustnodi, o fewn mis. Defnyddiwch ein gwasanaethau Software Filing neu Webfiling (neu Ffurflen 88(2)). Gweler ein canllaw 'Cyfalaf Cyfrannau a Llyfrynnau Prosbectws' am ragor o wybodaeth.

(c) Penderfyniadau:

Unrhyw benderfyniad arbennig a rhai mathau o benderfyniad arferol (p'un a gaiff ei fabwysiadu mewn cyfarfod neu yn ysgrifenedig), o fewn 15 diwrnod i'r cwmni ei fabwysiadu.

Does dim ffurflen benodedig ar gyfer penderfyniad ond bydd angen inni gael copi o'r penderfyniad. Mae gwybodaeth bellach am benderfyniadau cwmni i'w chael yn ein canllaw 'Penderfyniadau' Lle bo penderfyniad yn newid memorandwm neu erthyglau cymdeithasiad y cwmni, mae'n rhaid hefyd anfon copi o'r ddogfen ddiwygiedig yr un pryd â'r penderfyniad.

(d) Arwystlon:

Manylion arwystlon a gaiff eu creu gan y cwmni, o fewn 21 diwrnod ar ôl dyddiad creu'r arwystl. Gweler ein canllaw 'Arwystlon a Morgeisiau Cwmni' neu ar gyfer cwmnïau Albanaidd 'Company Charges (Scotland)'.Gall cais am gofrestru arwystl gael ei wneud gan unrhyw bersonau sydd â buddiant ar wahân i'r cwmni sy'n ddarostyngedig i'r arwystl: er enghraifft, banc sy'n rhoi benthyg arian ac sy'n dal budd yr arwystl.

(e) Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig:

Newid swyddfa gofrestredig. Defnyddiwch ein gwasanaethau Software Filing neu WebFiling (neu Ffurflen 287). Sylwer nad yw'r newid cyfeiriad yn dod i rym cyfreithiol nes i Dŷ'r Cwmnïau gofrestru'r hysbysiad sy'n cadarnhau'r newid. Caiff pobl eraill barhau i anfon gohebiaeth a hysbysiadau, ac ati, i'r hen gyfeiriad am hyd at 14 diwrnod ar ôl y cofrestru.

8. Beth yw PROOF?

Ystyr hyn yw cynllun PROOF (PROtected **O**n-line **F**iling**) y Cofrestrydd. Mae'n cynnig diogelwch ychwanegol gyda golwg ar gyflwyno manylion cyfarwyddwyr a chyfeiriad y swyddfa gofrestredig ar gyfer dogfennau a gaiff eu hanfon yn electronig.**

Mae cyfarwyddwyr yn dal safle pwysig o fewn y cwmni: mae ganddyn nhw'r pŵer i brynu, a gwneud trefniadau credyd ar ran y cwmni. Yn yr un modd, mae cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yn bwysig am mai dyma lle'r anfonir pob gohebiaeth swyddogol.

Caiff cofnodion Tŷ'r Cwmnïau eu defnyddio weithiau i wirio cyfreithlonrwydd cwmni a'i gyfarwyddwyr cyn caniatáu credyd neu fenthyciadau, felly mae'n bwysig bod y cofnodion yn gywir**. Bydd cwmnïau'n agored i dwyll ariannol os caiff y bobl anghywir eu cynnwys ar y cofnod fel cyfarwyddwyr cwmni neu os caiff cyfeiriad swyddfa gofrestredig ffug ei ffeilio.**

I atal twyllwyr rhag ymhonni'n gyfarwyddwyr cyfreithlon, mae Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig i gwmnïau system ddiogel a chwbl electronig yn rhad ac am ddim ar gyfer rhoi gwybod am newidiadau o ran cyfarwyddwyr a chyfeiriad y swyddfa gofrestredig. Os dewiswch chi roi gwybod am y manylion hyn drwy'r dull electronig yn unig, fe gânt eu diogelu drwy godau electronig ac ni fyddwn yn derbyn hysbysiadau gan eich cwmni wedi eu cyflwyno ar unrhyw ddiwyg arall.

Bydd rhaid ichi gwblhau ffurflen 'Opt-in'(PR1) a chytuno i'r telerau ac amodau i sicrhau **mai dim** ond os cânt eu cyflwyno drwy'r dull electronig diogel a byth ar ffurflen bapur y bydd Tŷ'r Cwmnïau'n derbyn unrhyw newidiadau o ran cyfarwyddwyr neu gyfeiriad y swyddfa gofrestredig. Mae'r ffurflen 'Opt-in' ac amodau a thelerau ar gael drwy'n gwefan neu drwy ffonio 0303 123 4500. Rhaid i'r ffurflen wedi'i chwblhau cael ei phostio nôl i Dŷ'r Cwmnïau. Mae'r gwasanaeth hwn yn wirfoddol; gallwch ddewis gadael unrhyw adeg a bydd Tŷ'r Cwmnïau'n mynd yn ôl i dderbyn hysbysiadau'ch cwmni'n electronig neu ar ffurflenni papur.

O ganol 2009, bwriedir newid y broses wedi'i seilio ar bapur hon i system electronig, felly unwaith y byddwch wedi cytuno i delerau ac amodau'r cynllun fe allwch gofrestru neu dynnu'n ôl yn electronig o PROOF o fewn tudalennau gwe priodol y gwasanaeth WebFiling.

9. Beth fydd Tŷ'r Cwmnïau yn ei wneud â'r wybodaeth gaiff ei hanfon gan fy nghwmni?

Rhaid i Dy'r Cwmniau drefnu i'r wybodaeth a ddaliwn am gwmnïau cofrestredig fod ar gael i unrhyw un sydd am ei gweld. Unwaith bod y dogfennau wedi eu prosesu, fe ymddangosant fel delwedd ar ein cronfa ddata at ddefnydd chwilwyr. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o wybodaeth heb fod ar gael i'r cofnod cyhoeddus, megis cyfeiriad preswyl arferol unigolion sy'n fuddiolwyr Gorchymyn Cyfrinachedd. .

10. Beth sy'n digwydd os nad anfona i'r wybodaeth i Dŷ'r Cwmnïau mewn pryd?

Os cyflwynwch eich cyfrifon yn hwyr, mae cosb awtomatig. Mae rhagor o wybodaeth am gosbau ffeilio hwyr i'w chael yn ein canllaw www.companieshouse.gov.uk

Yn ychwanegol, gellir erlyn cyfarwyddwyr am beidio â ffeilio dogfennau arbennig. O'u collfarnu, bydd ganddynt record droseddu a byddant yn agored i'w dirwyo hyd at £5,000 am bob tramgwydd. Mewn rhai enghreifftiau, gellid hefyd eu gwahardd rhag dal swydd cyfarwyddwr cwmni neu gymryd rhan yn rheolaeth unrhyw gwmni am gyfnod penodedig.

Mae'n hawdd colli ffydd mewn cwmni nad yw'n cwrdd â'i rwymedigaethau cyfreithiol. Os na ddywedwch wrthym am gyflwr ariannol eich cwmni yn brydlon, ac os na chyflwynwch fanylion am newidiadau, ni fydd y sawl sydd am wneud busnes â chi yn cael mantais yr wybodaeth ddiweddaraf am eich cwmni.

11. Beth os na fydd y cwmni'n llwyddo neu na fydd arna i ei angen mwyach?

Gall cwmnïau preifat sydd heb fasnachu na dilyn busnes mewn ffordd arall ers o leiaf tri mis wneud cais i'r Cofrestrydd am gael eu dileu o'r gofrestr. Am ragor o wybodaeth ynghylch hyn, gweler ein canllaw 'Dileu o'r Gofrestr, Diddymu ac Adfer' neu ar gyfer cwmnïau Albanaidd 'Strike-off, Dissolution and Restoration (Scotland)' yn www.companieshouse.gov.uk

Nid yw hyn yn drefn yn lle gweithrediadau ansolfedd ffurfiol lle bo'r rheiny'n briodol - gweler ein canllaw 'Ymddatod ac Ansolfedd' neu ar gyfer cwmnïau Albanaidd 'Liquidation and Insolvency (Scotland)' yn www.companieshouse.gov.uk

Pennod 7

Gwybodaeth bellach

1. Ble galla i gael cymorth?

Bydd ein staff yng Nghaerdydd a Chaeredin yn gallu'ch cynghori ynghylch materion yn gyffredinol, ond wrth ddechrau cwmni mae'n bwysig gwneud pethau'n iawn. Fel na

fyddwch chi'n gwneud camgymeriadau a allai droi'n gostus, peth doeth, efallai, yw ymgynghori â chyfreithiwr, asiant ffurfio cwmnïau, ysgrifennydd siartredig neu gyfrifydd fel sy'n briodol. Fe welir y cyfeiriadau mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.

Am ymholiadau ynghylch Cwmnïau Buddiant Cymunedol, ymwelwch â'r wefan cwmnïau BC yn http://www.cicregulator.gov.uk

2. Sut mae anfon gwybodaeth i Dŷ'r Cwmnïau?

Y ffordd fwyaf diogel i anfon gwybodaeth statudol i Dŷ'r Cwmnïau yw defnyddio'n gwasanaethau Software Filing neu WebFiling. I gael rhagor o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, edrychwch ar ein gwefan.

Gallwch chi gyflwyno dogfennau drwy'r post, drwy'r drefn DX, drwy negesydd neu'n bersonol (gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa, dros wyliau banc a thros y penwythnos) i'n swyddfeydd yng Nghaerdydd, Llundain a Chaeredin. Gallwch chi hefyd anfon dogfennau i'n swyddfa yng Nghaeredin drwy'r Post Cyfreithiol (LP). Sylwer mai dim ond yn ein swyddfa yng Nghaerdydd y gellir cael derbynebau i tu allan i oriau swyddfa.

Os ydych yn anfon dogfennau drwy'r post, drwy negesydd neu drwy wasanaeth DX neu LP a'ch bod yn dymuno cael derbynneb, rhaid amgáu copi o'ch llythyr eglurhaol gydag amlen stampiedig ac arni eich cyfeiriad dychwelyd. Bydd y côd bar a roddwn ar eich llythyr yn cyfleu'r dyddiad dod i law ac fe ddychwelwn y copi yn yr amlen a ddarparwch chi.

Sylwer nad yw cydnabyddiaeth dod i law yn golygu bod dogfen wedi ei derbyn i'w chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau. Nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn cyfrifon na dogfennau statudol eraill dros beiriant ffacs.

Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn anfon nodyn cydnabod awtomatig drwy'r e-bost ar gyfer pob cyflwyniad a wneir o dan drefn WebFiling, gyda neges e-bost ddiweddarach yn dangos a gafodd y cyflwyniad ei dderbyn neu ei wrthod.

3. Ga i ffeilio dogfennau mewn ieithoedd eraill?

Yn gyffredinol, mae'r dogfennau sy'n cael eu hanfon i Dŷ'r Cwmnïau yn gorfod bod yn Saesneg. Er hynny, gall dogfennau sy'n ymwneud â chwmnïau Cymreig - sef, cwmnïau y dywed eu memoranda fod rhaid i'w swyddfa gofrestredig fod yng Nghymru - gael eu llunio a'u cyflwyno yn Gymraeg.

Caiff cwmnïau gyflwyno'r dogfennau canlynol mewn ieithoedd eraill os bydd cyfieithiad Saesneg ardystiedig yn cael ei hanfon gyda nhw:

- Penderfyniadau a chytundebau sy'n effeithio ar gyfansoddiad cwmni;
- Contractau sy'n dyrannu cyfrannau am gydnabyddiaeth heblaw arian parod;
- Yn achos cwmnïau sydd wedi eu cynnwys yng nghyfrifon grwpiau mwy yn yr EEA neu y tu allan i'r EEA (bydd eich cyfrifydd yn gwybod beth yw'r rhain), cyfrifon y grŵp ac adroddiad blynyddol y rhiant-ymgymeriad; ac Offerynnau arwystlon (neu gopïau o offerynnau arwystlon).

Caiff cwmnïau hefyd ffeilio cyfieithiadau ardystiedig gwirfoddol o unrhyw ddogfen sy'n dod o dan y gofynion yn y Gyfarwyddeb gyntaf ar ddatgelu. Mae hyn yn cynnwys:

- Dogfennau cyfansoddiadol fel y memorandwm a'r erthyglau cymdeithasiad;
- Penodiadau cyfarwyddwyr, newid manylion neu derfynu penodiadau;
- Cyfrifon, adroddiadau a ffurflenni blynyddol;
- Hysbysiad ynglŷn ag unrhyw newid yn swyddfa gofrestredig y cwmni;
- Dogfennau dirwyn i ben;
- Dogfennau cyfalaf cyfrannau (cwmnïau cyhoeddus yn unig);
- Dogfennau ynghylch cyfuno a rhannu cwmnïau (cwmnïau cyhoeddus yn unig); a
- Dogfennau ynghylch cwmnïau tramor.

Gall cyfieithiadau gwirfoddol gael eu ffeilio yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn unig a rhaid anfon Ffurflen 1106 i gyd-fynd â nhw. Mae hon ar gael ar ein gwefan yn www.companieshouse.gov.uk

4. Ble galla i gael ffurflenni a chanllawiau?

Mae ffurflenni statudol a chanllawiau ar gael, yn rhad ac am ddim, gan Dŷ'r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf i'w sicrhau yw drwy'n gwefan www.companieshouse.gov.uk neu drwy ffonio 0303 1234 500.

Gellir hefyd gael ffurflenni gan ddogfenwyr cyfreithiol, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantiaid ffurfio cwmnïau – cyfeiriadau mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.

sut i gysylltu â ni

Canolfan Cysylltu: 0303 123 4500*
Mini-com: 029 2038 1245
enquiries@companieshouse.gov.uk
www.companieshouse.gov.uk

*At ddibenion hyfforddiant ac ansawdd, gall eich galwad gael ei monitro

Caerdydd:
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ
Ffacs: 029 2038 0900

Caeredin:
Companies House
4th Floor
Edinburgh Quay 2
139 Fountainbridge
Edinburgh EH3 9FF
Ffacs: 0131 535 5820

Llundain:
Companies House
21 Bloomsbury Street, London WC1B 3XD
Ffacs: 029 2038 0900